Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Tŷ Monmouth

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o drefniadau arolygu peilot. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod ychydig yn wahanol o ran fformat i adroddiadau cyhoeddedig eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

## Ynglŷn ag Ysgol Tŷ Monmouth

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Tŷ Monmouth |
| Perchennog | Gweinyddir Ysgol Tŷ Monmouth gan Phoenix Learning and Care Group, sy'n rhan o bortffolio Ashridge Capital, sef cwmni buddsoddiad ecwiti preifat. |
| Awdurdod lleol | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Ysgol arbennig annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Nac ydy |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 20 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 20 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 22/01/2024 |

Mae Ysgol Tŷ Monmouth yn ysgol ddydd annibynnol, sydd wedi'i lleoli yn un o ardaloedd maestrefol Casnewydd.

Mae'r ysgol wedi'i chofrestru i addysgu uchafswm o 23 o ddisgyblion rhwng 7 ac 16 mlwydd oed. Ar hyn o bryd, mae 20 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol rhwng 10 ac 14 mlwydd oed. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm teilwredig ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion penodol yn gysylltiedig â chyflwr y sbectrwm awtistig (CSA). Caiff y disgyblion eu lleoli gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Mae gan bob disgybl CDU (cynllun datblygu unigol) neu gyfwerth.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers sefydlu'r ysgol ym mis Chwefror 2022. Yn ogystal, mae gan yr ysgol ddirprwy bennaeth, cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CydADY), 6 o athrawon, 12 o gynorthwywyr addysgu a 3 therapydd.

## Crynodeb

Mae Ysgol Tŷ Monmouth yn ysgol lle mae staff yn datblygu perthnasoedd gweithio hynod effeithiol â disgyblion yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'u hanghenion emosiynol a'u hanghenion dysgu ychwanegol. Trwy ddysgu proffesiynol gwerthfawr, mae staff yn datblygu medrau gwerthfawr, sy'n helpu cynorthwyo disgyblion i hunanreoli, datblygu eu medrau cymdeithasol a rheoli eu hymddygiad. Mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i hyn, a thros gyfnod, yn ymgynefino'n dda yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel a saff.

Mae strwythuro'r dosbarthiadau ar draws yr ysgol yn gyfnodau yn hytrach na grwpiau blwyddyn yn helpu sicrhau cydnawsedd personol a datblygiadol rhwng disgyblion. Mae meintiau dosbarthiadau yn fach, gydag uchafswm o 4 disgybl yn cael eu cynorthwyo gan o leiaf un athro ac un cynorthwyydd addysgu. Mae'r meintiau dosbarthiadau bach hyn yn golygu bod athrawon a chynorthwywyr addysgu yn gallu darparu graddau uchel o gymorth buddiol ar gyfer disgyblion unigol. Fodd bynnag, nid yw lefel yr her a ddarperir gan staff i gefnogi cynnydd disgyblion yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol arweinyddiaeth gref sy'n goruchwylio gweithredu cwricwlwm priodol ac addysgu cadarn. Megis dechrau datblygu'r cwricwlwm ymhellach y mae arweinwyr i ddiwallu anghenion disgyblion hŷn wrth iddynt baratoi ar gyfer eu camau nesaf mewn gwaith neu addysg. O ganlyniad i ansawdd yr addysgu a'r profiadau dysgu yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Mae'r cynnydd cryf a wna'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu medrau cymdeithasol ac mewn gwella'u presenoldeb a'u hymgysylltiad â dysgu yn nodwedd nodedig. Fodd bynnag, mae ffocws cyfyngedig ar addysgu a dysgu o fewn prosesau sicrhau ansawdd a dysgu proffesiynol ar gyfer staff.

Mae'r ysgol yn bodloni pob un o'r Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 i gynnal ei chofrestriad.

## Prif ganfyddiadau

### Lles a pherthnasoedd disgyblion

Mae Ysgol Tŷ Monmouth yn gymuned anogol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Dros gyfnod, mae staff yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf ♪1 disgyblion yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'u diddordebau a'u hanghenion cymdeithasol ac emosiynol.

Mae gan yr ysgol raglen bontio gynhwysfawr a buddiol ar gyfer disgyblion newydd yn yr ysgol, sy'n eu cynorthwyo'n dda i addasu yn unol â'u hamgylchedd newydd. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn setlo'n dda ac yn mynychu'n rheolaidd. I'r rhan fwyaf o'r disgyblion, mae hyn yn gynnydd cryf o'u hysgol flaenorol.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r perthnasoedd cadarnhaol y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu meithrin â'u cyfoedion yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu medrau pwysig fel goddefgarwch, parch a sut i wrando ar ei gilydd.

Mae llais y disgybl yn nodwedd gref yn yr ysgol. Caiff disgyblion effaith uniongyrchol ar yr hyn y maent yn ei ddysgu, trwy osod targedau wythnosol personol ac adolygu'r rhain gyda'u hathrawon. Mae lleiafrif o ddisgyblion wedi cael eu hethol i weithredu fel llysgenhadon ysgol gan eu cyfoedion. Gyda chymorth, maent yn helpu goruchwylio elfennau o fywyd yr ysgol fel cynllunio digwyddiadau a dewis ac arwain gweithgareddau chwaraeon amser egwyl. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys ym mywyd yr ysgol a bod staff ac arweinwyr yn gwrando arnynt.

### Darpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gynhwysfawr o anghenion disgyblion, ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) disgyblion yn hynod effeithiol. Mae cynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion wedi'u cysylltu'n briodol â'u CDUau neu gyfwerth ac yn cynnwys dyheadau disgyblion ar gyfer eu dyfodol. Fodd bynnag, adeg yr arolygiad, mae gan ryw hanner y disgyblion angen sylfaenol sydd y tu allan i gategori cofrestru'r ysgol.

Mae'r ysgol yn elwa ar gymorth gan dîm therapiwtig yn yr ysgol sy'n cynnwys therapydd lleferydd ac iaith, seicotherapydd celf a seicotherapydd cerdd. Mae'r cymorth hwn yn darparu cyfleoedd hynod effeithiol i'r ysgol rannu gwybodaeth o ystod o asesiadau buddiol o anghenion ehangach disgyblion. O ganlyniad i'r gwaith agos rhwng y tîm therapiwtig ac aelodau staff eraill, mae disgyblion yn derbyn cymorth cyson a sensitif sy'n diwallu eu hanghenion emosiynol, corfforol a dysgu yn dda.

**Cameo – 'Teimladau Mawr'**

Daeth y tîm therapïau yn Ysgol Tŷ Monmouth yn ymwybodol bod disgyblion yn orbryderus pan oeddent yn ansicr sut byddai staff yn ymateb iddynt pe baent yn profi

teimlad 'mawr' neu ddieisiau. Yn ychwanegol, gofynnodd rai o'r tîm addysgu am gymorth i wybod sut i ymateb yn effeithiol i arwyddion o gamreolaeth emosiynol mewn disgyblion newydd. Roedd y tîm o'r farn mai'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r broblem hon oedd galluogi'r disgyblion i gael dweud eu dweud ynglŷn â sut hoffent i staff ymddwyn i ymateb i unrhyw 'deimladau mawr'. Cynorthwyodd staff y disgyblion i gyfrannu at eu cynlluniau cymorth ymddygiad, er enghraifft trwy roi ystod eang o strategaethau ymddygiad â symbolau iddynt nodi beth oedd yn gweithio iddyn nhw.

Nid oes gan lawer o'r disgyblion yr eirfa i fynegi eu teimladau yn glir i oedolion. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, caiff y defnydd o'r term 'teimlad mawr' ei ddeall yn dda gan y disgyblion. Mae hyn yn dechrau arwain at fedrau cymdeithasol gwell, perthnasoedd cryfach rhwng cyfoedion, ac adnabyddiaeth fod gan bobl eraill 'deimladau mawr', hefyd. Mae siarad am 'deimladau mawr' yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl disgyblion, eu goddefgarwch o bobl eraill a'u lles cyffredinol.

## Profiadau dysgu a chynnydd disgyblion

Mae Ysgol Tŷ Monmouth yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ar gyfer disgyblion, sy'n gweddu'n dda i weledigaeth a gwerthoedd yr ysgol. Caiff y cwricwlwm ei yrru'n briodol gan anghenion dysgu unigol y disgyblion, eu hanghenion therapiwtig a'u diddordebau a'u dyheadau. Mae trefnu'r cwricwlwm yn dri cham, sef 'meithrin', 'ffynnu' a 'thyfu', yn adlewyrchu'n effeithiol ystod eang oedrannau, anghenion a galluoedd y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae ystod eang o gyfleoedd cynlluniedig i ddisgyblion ddysgu y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu ac archwilio medrau rhifedd wrth wario arian yn siop fach yr ysgol ac yn mwynhau ymweliadau â Sain Ffagan, parc trampolîn a fferm. At ei gilydd, mae'r cynllunio yn briodol ac yn diwallu anghenion a diddordebau unigol y disgyblion yn dda. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyfleoedd galwedigaethol mwy rheolaidd.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cymdeithasol trylwyr a chefnogol sy'n galluogi disgyblion i archwilio a datblygu goddefgarwch, dealltwriaeth ac empathi. Caiff disgyblion gyfleoedd i weithio mewn grwpiau mwy y tu allan i'w hystafell ddosbarth a chymryd rhan mewn gweithgareddau gwrando a rhannu, fel dadleuon a chwarae synhwyraidd.

Mae staff addysgu yn monitro lles disgyblion yn ofalus. Lle bo'n berthnasol, mae ymateb graddedig tra ystyriol yn sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu â dysgu. Er enghraifft, gwneir addasiadau priodol i'r cwricwlwm i ddiwallu anghenion disgyblion, fel nodi testunau o ddiddordeb yn seiliedig ar weithgareddau llais y disgybl. Mae hyn yn cefnogi ymgysylltiad parhaus y disgyblion â phrofiadau gwerthfawr o fewn yr ysgol yn effeithiol. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae lefel yr her mewn gwersi i gefnogi cynnydd disgyblion yn rhy amrywiol.

Mae staff yn yr ysgol yn rhoi canmoliaeth ac adborth llafar sensitif, sy'n cynorthwyo disgyblion yn dda i ymgysylltu a gwneud cynnydd yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw

adborth bob amser yn rhoi camau nesaf eu dysgu i ddisgyblion. Ymhellach, nid yw adborth ysgrifenedig bob amser yn hygyrch nac yn ystyrlon i'r disgybl.

Dros eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn raddol, yn unol â'u hanghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, maent yn datblygu o adnabod mathau o onglau, i gyfrifo'r ongl goll ar linell syth i adnabod onglau o fewn siapiau 2D, wedyn.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau annibyniaeth yn dda dros eu cyfnod yn yr ysgol. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r teclyn hunansganio mewn siopau â hyder i brynu cynhwysion, coginio pizzas cartref heb glwten, ac yn glanhau'r gegin ar ôl hynny.

## Diogelu

Mae gan yr ysgol brosesau diffiniedig ar gyfer cefnogi anghenion lles y disgyblion ac annog presenoldeb ac ymddygiad da. Mae arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth yn effeithiol i gymryd golwg gyfannol ar bresenoldeb ac ymddygiad pob disgybl, yn unol ag ADY disgyblion, i nodi camau gweithredu a chymorth perthnasol.

Mae gan yr ysgol raglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) effeithiol, a gefnogir gan adnoddau sydd wedi cael eu haddasu'n briodol ar gyfer anghenion a chamau datblygiadol y disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth fuddiol o feysydd pwysig fel perthnasoedd cadarnhaol, diogelwch ar y rhyngrwyd a gwneud dewisiadau iach. Ymestynnir y cwricwlwm yn addas gan ymwelwyr allanol. Er enghraifft, mae swyddog cyswllt lleol yr heddlu yn cyflwyno sesiynau ar destunau pwysig fel gwrthfwlio a secstio, ac mae'r 'heddlu rheilffordd' yn galluogi disgyblion i archwilio aros yn ddiogel ar y rheilffyrdd.

Mae'r ysgol yn cadw cofnodion manwl a chywir o'r holl ddigwyddiadau ymddygiadol. Mae'n defnyddio'r tîm staff, gan gynnwys y tîm therapi, i gynorthwyo disgyblion yn dda ac yn rhoi sylw priodol i adnabod sbardunau a myfyrio ar arfer ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

At ei gilydd, mae staff yn meddu ar ddealltwriaeth gref o'u rôl mewn diogelu disgyblion. Mae prosesau recriwtio trylwyr a mwy diogel ar waith. Yn ychwanegol, mae arweinwyr diogelu yn cofnodi ac yn adrodd ar bryderon yn briodol. Fodd bynnag, mae gweithdrefnau sefydliadol yn arwain at ddyblygu adrodd, ac nid yw hyn yn gwneud defnydd da o amser arweinwyr.

## Arwain a gwella

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir i ddatblygu ysgol anogol gyda disgyblion yn ganolog i bopeth a wnânt. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol iawn i gyflawni'r nod hwn, gan sicrhau bod disgyblion yn setlo'n dda pan fyddant yn ymuno â'r ysgol, ac yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol â staff a chyfoedion yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr.

Ers agor yr ysgol yn 2022, mae arweinwyr wedi datblygu tîm sydd wedi ymgysylltu ac wedi'i gymell mewn amgylchedd dysgu golau, croesawgar ac a gynhelir yn dda. Maent yn ymdrechu i sicrhau deilliannau cadarnhaol ar gyfer eu disgyblion. Mae

rhieni'n gwerthfawrogi'r cyfathrebu rheolaidd a chlir am gynnydd a lles eu plentyn yn yr ysgol.

Mae arweinwyr yn coladu ystod o wybodaeth uniongyrchol fuddiol trwy weithgareddau sicrhau ansawdd fel teithiau dysgu a dadansoddi data. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio blaenoriaethau gwella'r ysgol yn briodol. Mae gan arweinwyr hanes da o roi newidiadau cadarnhaol ar waith yn yr ysgol, er enghraifft wrth ymateb i argymhellion o ymweliadau arolygu blaenorol. Fodd bynnag, mae gan y gwaith hwn ffocws cyfyngedig ar wella addysgu a dysgu.

Mae staff yn elwa ar ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol, gan gynnwys trwy arsylwadau cymheiriaid ar draws yr ysgol neu hyfforddiant diweddar i staff ar ymwybyddiaeth o fyddardod. Fodd bynnag, ceir cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar addysgu a dysgu neu i wella manylder gwybodaeth athrawon mewn gwahanol feysydd o'r cwricwlwm.

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu rheoli gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

**Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Addasrwydd perchnogion a staff**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Darparu gwybodaeth**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Diogelu

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1 Mireinio prosesau ar gyfer sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant i ganolbwyntio mwy ar addysgu a chynnydd disgyblion

A2 Parhau i ddatblygu'r cwricwlwm a chyfleoedd dysgu galwedigaethol i gynorthwyo disgyblion i ddilyn eu llwybrau dysgu dymunol

A3 Sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn herio pob un o'r disgyblion i wneud cynnydd da yn gyson

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Rhaid i'r ysgol roi copi o'r adroddiad hwn neu grynodeb ohono i'r holl rieni / gofalwyr yn yr ysgol, hefyd.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau o'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol / UCD a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr / pwyllgor rheoli, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol / UCD
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol / UCD, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol / UCD
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol / UCD ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol / UCD wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol / UCD, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol / pwyllgor rheoli, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2024